Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llangwyryfon
# Llangwyryfon
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 4HA

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/12/2013**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ym mhentref gwledig Llangwyryfon sydd ryw un ar ddeg milltir o dref Aberystwyth yn sir Ceredigion.  Mae’r ysgol yn gwasanaethu’r pentref a’r ardal gyfagos.

Mae’r ysgol yn derbyn disgyblion yn amser llawn i’r dosbarth derbyn yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.  Mae 41 disgybl ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd.  Mae’r plant yn cael eu haddysgu plant mewn 2 ddosbarth cymysg eu hoedran: disgyblion 4 i 7 oed yn y Cyfnod Sylfaen a disgyblion 7 i 11 oed yng nghyfnod allweddol 2.

Nid oes unrhyw ddisgybl â’r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim yn yr ysgol ar hyn o bryd.  Daw tua hanner y disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.  Cymraeg yw cyfrwng yr addysgu a’r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.  Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg gyda’r nod o’u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i’r ysgol uwchradd yn 11 oed.  Mae tua 22% o’r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sy’n cynnwys ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Tachwedd 2007.  Penodwyd y pennaeth presennol i’w swydd ym mis Medi 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llangwyryfon yn 2013-2014 yw £4,630.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £9,062, a'r lleiafswm yw £3,119.  Mae Ysgol Gynradd Llangwyryfon yn yr 20fed safle o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol Ysgol Llangwyryfon yn dda oherwydd bod:

- disgyblion yn perfformio'n gyson dda ar y lefelau uwch dros gyfnod o amser;
- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- ethos cynhwysol sy'n seiliedig ar barch tuag at eraill;
- presenoldeb y disgyblion yn gyson dda;
- ansawdd yr addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol gydag elfennau da iawn yn y Cyfnod Sylfaen; a bod
- yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu amrywiol sy'n hybu diddordeb a chymhelliant y disgyblion yn llwyddiannus.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella Ysgol Llangwyryfon yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir ac mae'n llwyddo i'w chyfleu'n effeithiol i eraill;
- pob aelod o staff yn cydweithio llwyddiannus fel tîm;
- aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn gweithredu'n strategol;
- cynllun datblygu'r ysgol, sy'n deillio'n uniongyrchol o'r hunanarfarnu, yn seiliedig ar godi safonau; a bod
- partneriaeth gryf gyda rhieni a'r gymuned.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod medrau rhifedd a TGCh yn cael eu cynllunio'n fwriadus ac yn ddatblygol ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial gan wneud defnydd mwy effeithiol o raglenni ymyrraeth i ymateb i anghenion

A3 Sicrhau bod yr adroddiad hunanarfarnu yn rhoi pwyslais mwy penodol ar ddadansoddi effaith gwaith yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Llangwyryfon yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion uwchlaw'r cyfartaledd a ddisgwylir o blant yr oedran hwn ymhob deilliant ar fynediad i'r ysgol.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith gan ddefnyddio cystrawen gadarn a geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu syniadau'n glir ac yn frwdfrydig. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau darllen llyfrau ac yn gwneud cynnydd da gan ddarllen yn ystyrlon, gyda chywirdeb a dealltwriaeth gynyddol o'r testun.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith. Mae mwyafrif yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith, gan ymuno â thrafodaethau dosbarth yn frwdfrydig. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn ystyrlon gyda mynegiant priodol gan drafod y cynnwys yn ddeallus. Mae llawer o ddisgyblion yn medru cywain gwybodaeth perthnasol o wahanol destunau yn effeithiol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn llwyddiannus gan ysgrifennu'n synhwyrol ac yn annibynnol ar draws y meysydd dysgu. Mae'r goreuon yn ysgrifennu'n estynedig gan atalnodi eu gwaith yn briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y ddwy iaith gan ddefnyddio geirfa ehangach i gyfoethogi eu gwaith yn enwedig yn y Saesneg.

Mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n briodol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Gall llawer ohonynt gasglu gwybodaeth yn llwyddiannus gan drosglwyddo'r wybodaeth honno i ffurf graff. Enghraifft o hyn yw'r gwaith ar wnaed ar archwiliad traffig yn y pentref yn nghyd-destun gwaith thema. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau mathemategol mewn amrywiaeth o feysydd dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau llawer o ddisgyblion mewn gwersi a llyfrau mathemateg yn gadarn dda, ac mae disgyblion mwy abl yn cyflawni'n uchel. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio amrywiaeth da o ddulliau cyfrifo yn gywir mewn ymchwiliadau. Maent yn defnyddio ystod o fesurau mesur priodol yn hyderus yn eu gwaith. Serch hynny, prin yw'r dystiolaeth o ddisgyblion yn defnyddio a chymhwyso'r medrau rhifedd maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg ar draws y cwricwlwm.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, o gymharu ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% isaf ar gyfer pob maes dysgu. Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol ar ddeilliant 6 yn cymharu'n fmwy ffafriol ac wedi gosod yr ysgol yn y 25% a'r 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd diwethaf.

Dros gyfnod o ddwy flynedd, o gymharu â'r canrannau cenedlaethol, mae'r bechgyn wedi perfformio'n well mewn datblygiad mathemategol ar y lefel uwch, (deilliant 6) tra mae perfformiad y merched yn well mewn datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol.

Yn 2013, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig, lefel 4 yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion a Chymru, mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ond yn is mewn Cymraeg. O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf am y rhan fwyaf o'r amser ymhob pwnc craidd.

Dros gyfnod o bedair blynedd, mae'r canran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig, (Lefel 5) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru yn y Gymraeg.

**Lles: Da**

Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Mae ymddygiad bron pob un o fewn y dosbarth, a thu allan yn dda iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith, yn cydweithio'n effeithiol ac yn canolbwyntio'n llwyddiannus am gyfnodau priodol.

Mae pob plentyn yn dweud eu bod teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu. Mae'r cyngor ysgol yn frwdfrydig ac yn ymgymryd â'u rôl yn gydwybodol. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd, ac mae syniadau'r aelodau yn cael eu gwerthfawrogi ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o fwyta ac yfed yn iach. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn manteisio ar weithgareddau fel chwaraeon a gweithgareddau ar ôl ysgol i ddatblygu eu ffitrwydd. Mae dealltwriaeth y mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol am bwysigrwydd cadw'n iach yn datblygu'n llwyddiannus.

Mae presenoldeb yr ysgol yn gadarn dda ac wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail cinio am ddim dros y 4 blynedd diwethaf. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu amrywiol sy'n hybu diddordeb a chymhelliant y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r profiadau hyn yn ymateb yn llawn i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae cynlluniau manwl y Cyfnod Sylfaen, yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y medrau.

Mae'r cynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 2 yn rhoi sylw priodol i ddatblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm ond nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn derbyn digon o her. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu yn dda, ond nid oes digon o gyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae'r gweithgareddau all-gwricwlaidd, teithiau addysgol ac ymweliadau yn datblygu a chefnogi addysg y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig a'r iaith Gymraeg yn dda. Trwy waith thema a chystadlu mewn eisteddfodau, mae dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol yn datblygu'n briodol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd amrywiol ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang. Mae hyn oll yn cyfrannu'n llwyddiannus at ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd gweithredu'n gynaliadwy.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol gydag elfennau da iawn yn y Cyfnod Sylfaen. Mewn llawer o'r gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn cwestiynu'n effeithiol er mwyn sicrhau dealltwriaeth y disgyblion a chodi safonau o fewn cyd-destun y dasg. Mae hyn yn gryfder yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae gan yr holl athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio tasgau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r gwersi wedi eu cynllunio'n ofalus ac fe roddir sylw priodol i ddatblygu medrau. Er hynny, nid yw'r tasgau bob amser yn cynnig digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Nid yw'r tasgau bob amser yn herio disgyblion o allu uwch ar frig yr ysgol.

Mae cydweithio effeithiol rhwng y staff addysgu a'r cynorthwywyr, sy'n cyfoethogi'r profiadau dysgu ac yn cefnogi unigolion a grwpiau o ddysgwyr yn addas.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Lle mae ar ei orau, mae'r athrawon yn rhannu'r amcanion ac yn trafod meini prawf llwyddiant yn llwyddiannus gyda'r disgyblion. Mae athrawon yn marcio gwaith y

disgyblion yn gyson ac yn cynnig sylwadau adeiladol. Mae hyn oll yn hybu annibyniaeth y disgyblion, ac yn eu cynorthwyo i wybod sut i wella safon eu gwaith.

Mae trefniadau asesu ar draws yr ysgol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn defnyddio profion safonol ac asesiadau athrawon wrth asesu gwaith y disgyblion ac i ddarparu cefnogaeth briodol yn ôl yr angen.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion statudol ac yn cynnwys sylwadau pwrpasol ar gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi cefnogaeth briodol i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae polisïau'r ysgol yn sicrhau ymddygiad cadarnhaol a lefelau uchel o bresenoldeb.

Mae trefniadau effeithiol yn eu lle i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'n cefnogi hyn yn llwyddiannus drwy waith thema ac amrywiaeth o weithgareddau corfforol.

Mae disgyblion yr ysgol yn cael cyfleoedd i dderbyn cyfrifoldebau drwy'r pwyllgor eco, cyngor ysgol a'r cynllun 'Cyfaill Clên'. Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn cymryd cyfrifoldeb dros ofalu am eraill yn ystod amser chwarae ac amser cinio.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus trwy wasanaethau dosbarth ac ysgol gyfan.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn cydymffurfio'n llawn a'r Côd Ymarfer. Mewn amser byr, mae'r cydlynydd wedi datblygu ei rôl yn effeithiol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion dysgu disgyblion yn gynnar, ac yn darparu cymorth ychwanegol addas fel bo'r angen. Mae'r ysgol yn defnyddio rhaglenni ymyrraeth priodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd unigolion; fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth i gefnogi unigolion mewn rhifedd, nac i herio disgyblion o allu uwch wedi datblygu i'r un graddau. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth ac arweiniad asiantaethau allanol arbenigol yn rheolaidd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Gynradd Llangwyryfon yn gymuned sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal i holl ddisgyblion yr ysgol gan sicrhau bod gan bob unigolyn fynediad llawn i gwricwlwm yr ysgol. Llwydda'r holl staff i feithrin agweddau ac ymddygiad cadarnhaol ymhlith y disgyblion.

Mae goddefgarwch a chydraddoldeb hiliol yn cael sylw priodol drwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r gwaith a wneir ar Fotswana a Ffrainc.

Mae'r adeilad o ansawdd priodol ac mae'r ysgol yn defnyddio'r adeilad yn effeithiol. Mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau ac ar draws yr ysgol yn lliwgar ac yn dathlu gwaith a llwyddiannau'r disgyblion yn briodol. Caiff yr adeiladau a'r safle eu cynnal a'u cadw'n dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun, o'r staff ac o'r disgyblion. Mae ganddi weledigaeth glir ac mae'n llwyddo i gyfleu honno yn effeithiol i eraill. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gweithio fel rhan o dîm ac yn deall eu rôl yn llawn wrth weithredu cynlluniau'r ysgol. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad sy'n cynnwys trefniadau addas i fonitro ac arfarnu ansawdd y dysgu a'r addysgu ym mhob dosbarth.

Mae'r ysgol yn llwyddo i ymateb yn gadarnhaol i ystod o flaenoriaethau cenedlaethol drwy fynd i'r afael yn effeithiol â chodi safonau llythrennedd, asesu ar gyfer dysgu ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn gweithredu'n strategol. Mae'r llywodraethwyr yn derbyn data'r ysgol, yn ei ddadansoddi'n hyderus ac yn ei ddefnyddio'n briodol i herio'r ysgol ac i godi safonau ymhellach.

Mae'r corff llywodraethol yn hyrwyddo presenoldeb da ac yn cefnogi blaengareddau megis bwyta ac yfed yn iach sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar les disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r broses o gynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol a gweithredol. Mae'r ysgol yn cynnwys barn y staff, llywodraethwyr, rhieni a'r disgyblion yn y broses hunan arfarnu. Mae'r broses hunanarfarnu wedi'i sefydlu'n gadarn, ac wedi'i seilio ar godi safonau disgyblion. Mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad trylwyr o ddata ac arsylwadau monitro addysgu a dysgu'r ysgol a'r awdurdod. Mae hyn yn rhoi darlun clir o berfformiad yr ysgol. Serch hynny, mae elfennau o'r adroddiad yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n ddigon dadansoddol.

Mae'r llywodraethwyr yn chwarae rhan effeithiol yn y broses, drwy fonitro a herio'r ysgol fel ffrindiau beirniadol. Mae'r athrawon yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gryfderau a gwendidau'r ysgol drwy fod yn rhan weithredol o'r broses.

Mae cynllun datblygu'r ysgol, sy'n deillio'n uniongyrchol o'r hunanarfarnu, yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau. Mae cynllun yn targedu meysydd penodol i'w datblygu. Cyfeiria'r cynllun yn addas at y camau i'w cymryd, y meini prawf llwyddiant, trefniadau monitro a gofynion cyllidebu. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau mesuradwy sy'n galluogi'r llywodraethwyr i fesur cynnydd mewn safonau a pherfformiad yr ysgol yn llwyddiannus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gadarn. Mae'r gymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi prynu adnoddau dysgu defnyddiol er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni yn effeithiol trwy gylchlythyron, a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd i'r rhieni, i drafod gwaith a safonau eu plant.

Mae'r cyswllt agos rhwng yr ysgol a'r Cylch Meithrin yn hwyluso trosglwyddiad y disgyblion i'r ysgol. Mae trefniadau addas hefyd yn eu lle ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd lleol. Mae'r trefniadau hyn yn paratoi'r disgyblion hynaf yn llwyddiannus ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg

Mae'r cysylltiadau agos â'r gymuned yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn dda. Mae'r rhan flaenllaw a gymerodd yr ysgol yn y fenter o lanhau sbwriel o amgylch y pentref a chystadlu yn yr eisteddfod leol yn arwydd o'r bartneriaeth gadarn sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion agos i gymedroli gwaith disgyblion er mwyn sicrhau cysondeb yn eu hasesiadau a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ysgol yn elwa o'r bartneriaeth effeithiol gyda gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol er mwyn datblygu staff, ymateb i anghenion disgyblion a chodi safonau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a chynorthwywyr i ymateb i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm cenedlaethol. Caiff y staff eu rheoli'n effeithiol mewn ffordd sy'n gwneud y defnydd gorau o'u harbenigedd. Mae athrawon yn gwneud defnydd addas o'u cyfnod cynllunio, paratoi ac asesu i baratoi gwersi a marcio gwaith disgyblion. Mae gan yr holl staff ddisgrifiad swydd, ac maent yn cymryd rhan briodol yn y trefniadau rheoli perfformiad. Mae'r staff yn manteisio ar hyfforddiant sy'n eu galluogi i weithredu'r strategaethau a nodir yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cymuned ddysgu broffesiynol er mwyn gwella medrau technoleg gwybodaeth y staff a chodi safonau'r disgyblion. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar ddeilliannau disgyblion

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli eu hadnoddau'n briodol. Mae'r corff llywodraethol a'r is-bwyllgorau cyllid yn cyfarfod yn rheolaidd. Gyda chefnogaeth swyddog cyllid yr awdurdod, maent yn monitro'r gyllideb yn briodol.

O ystyried safonau da'r ysgol, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn 2013, cyrhaeddodd 80% o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen y lefel ddisgwyliedig, sef deilliant 5 ym mhob maes dysgu. Mae hyn yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Yn 2012, cyrhaeddodd 100% o ddisgyblion y lefel ddisgwyliedig, sef deilliant 5, ymhob maes dysgu.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig, sef deilliant 6, yn 2013, mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, datblygiad mathemategol ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol yn cymharu'n fwy ffafriol na chyfartaledd y teulu a Chymru.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% isaf ar gyfer pob maes dysgu yn 2013, tra'i bod yn y 25% uchaf yn 2012.

Dros gyfnod o ddwy flynedd, o gymharu â'r canrannau cenedlaethol, mae'r bechgyn wedi perfformio'n well mewn mathemateg ar y lefel uwch (deilliant 6) tra mae perfformiad y merched yn well mewn datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae pob disgybl yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn 2013. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae pob disgybl hefyd yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4 neu uwch, yn y pynciau craidd i gyd ar wahân i'r Gymraeg. Mae'r canran sy'n cyrraedd y lefel uwch, sef lefel 5, yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru yn y Gymraeg, Saesneg mathemateg a gwyddoniaeth. Yn gyffredinol, mae'r tuedd yn eithaf cyson dros y pum mlynedd ddiwethaf.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf am ran fwyaf o'r amser.

Dros gyfnod o bum mlynedd, o gymharu â'r canrannau cenedlaethol yn gyffredinol, mae merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ar y lefel uwch mewn Cymraeg a Saesneg.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 17 | 17<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 17 | 17<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 17 | 17<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 17 | 17<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 17 | 16<br>94% | 1<br>6% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 17 | 17<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 17 | 17<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 17 | 17<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 17 | 17<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 17 | 17<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 17 | 17<br>100% | 0<br>0% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 78% | 22% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 17 | 17<br>100% | 0<br>0% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 13 | 7 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 54% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 13 | 9 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 69% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 13 | 10 | 2 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 77% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 13 | 7 | 5 | 1 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 54% | 38% | 8% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 13 | 7 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 54% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 13 | 9 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 69% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 10 | 3 | 5 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 30% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 13 | 8 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Carolyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Robert Gwyn Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nerys Parry | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.